

Cyfarfod y Fforwm Gwirfoddolwyr: Cofnodion

Dydd Llun 18 Mawrth, 1.30-3.30pm, Llanion

Yn bresennol: Helen Clarke, Karin Howells, Jon King, Granville Watson, Dave Fisher, Michele Chung, Rebecca Evans (RE), Sally Boyton (SB)

Ymddiheuriadau: Gordon Lewis, Roy Partington, Jan Millward, Tetiana Bondarenko, Madeleine Bland, Hywel Mansell, Ellie Sherwin

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

2. Dilyniant o'r cyfarfod blaenorol.

Cyflwynodd Rebecca y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion o'r cyfarfod blaenorol:

Diweddariad	Cam Gweithredu
Mae'r siart o'r sefydliad , a fydd yn amlinellau rolau'r staff, yn dal i gael ei baratoi	Siart cynhwysfawr cyfredol i'w ddsbarthu pan fydd modd.
Monitro llwybrau troed Awgrymodd Roy a Jon y gallai'r tîm Llwybrau o bosibl ymdrin â materion cynnal a chadw yn ôl y galw 'ar alwad' os yw tîm y wardeniaid yn barod i gydweithio. Byddai hyn hefyd yn helpu i lenwi'r bylchau pan nad oes modd cynnal sesiynau Llwybrau oherwydd gwyliau blynyddol. Awgrymodd Jon hefyd y gellid cynnal digwyddiad ar gyfer y rhai sy'n monitro llwybrau troed, er mwyn iddynt allu dod at ei gilydd, cyfarfod ei gilydd, trafod y mathau o faterion sy'n codi a helpu i safoni adroddiadau	Mae RE wedi codi hyn â thîm y wardeniaid – dim camau gweithredu uniongyrchol wedi'u cadarnhau eto. RE i godi'r mater gyda Chris T ac awgrymu digwyddiad blynyddol
Gwirfoddoli annibynnol Rhannodd Rebecca wybodaeth ynglŷn â llwyddiant cyllid Rhwydweithiau Natur ar gyfer prosiect o'r enw Cysylltu Natur 25x25 a fydd yn ymwneud â gwaith i hybu adferiad natur dros 25% o Ogledd y Parc Cenedlaethol, gan helpu rhywogaethau a chynefinoedd i ffynnu, a dal i gefnogi ffermwyr a thyddynwyr sy'n defnyddio technegau ffermio traddodiadol i warchod natur. Bydd hyn yn creu ychydig o gyfleoedd gwirfoddoli newydd	RE/SB i rannu manylion y cyfleoedd newydd i wirfoddoli pan fyddant ar gael.
Gwisg swyddogol Adolygwyd detholiad o samplau o grysau-T llewys hir yn ystod y cyfarfod er mwyn cael adborth gan	RE i fwrw ymlaen â'r gwaith o drefnu crysau-T llewys hir a fydd yn cael eu cynnig i wirfoddolwyr

aelodau'r fforwm a deall eu haddasrwydd ar gyfer y tasgau gwirfoddoli ledled y Parc.	newydd fel opsiwn o wisg swyddogol amgen yn lle'r crys polo llewys byr. Mae'n bosibl y bydd y gwirfoddolwyr presennol hefyd yn gallu cael crys llewys hir, gan ddibynnu ar eu rôl.
Hyfforddiant Darparwyd hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth ym mis Rhagfyr 2023. Darparwyd hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys ym mis Chwefror 2024. Roedd llawer o ddiddordeb mewn caffael sgiliau Cymorth Cyntaf ac mae'n bosibl y gellir llenwi ail gwrs yn ystod 2024.	RE i adrodd yn ôl pan fydd cyfleoedd eraill ar gyfer hyfforddiant Cymorth Cyntaf ac ymwybyddiaeth o Awtistiaeth/Anabledau Dysgu ar gael.
Dosbarthwyd adnoddau o'r cwrs hyfforddiant adnabod coed ym mis Gorffennaf yn unol â'r cais.	Archwilio hyfforddiant coed manylach.
Lleoliad sych ar gyfer sesiynau Llwybrau tywydd gwlyb Ni chafwyd cadarnhad eto i'r syniad o ddarparu lleoliad ar gyfer y grŵp Llwybrau, fel bod gweithgareddau a gwaith cefnogi cyfranogwyr yn gallu parhau mewn tywydd gwlyb. Mynegwyd pryder gan Granville bod diffyg lleoliad sych yn golygu nad yw amcanion 'llesiant' y prosiect Llwybrau yn cael eu cyflawni, a nododd fod y tywydd gwlyb parhaus yn amlwg yn amharu ar gymhelliant cyfranogwyr, yn enwedig y rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Mae tywydd gwlyb yn aml yn arwain at ganslo sesiynau, neu os yw sesiynau yn cael eu cynnal mae'r glaw parhaus a'r mwd yn cael effaith negyddol ar lesiant. Roedd pawb yn cytuno bod lle dan do yn flaenoriaeth uchel i'r prosiect, yn enwedig cyn y gaeaf nesaf.	RE i ymgynghori â'r timau rheoli er mwyn canfod a oes cynllun i ddarparu lleoliad sych yn y dyfodol.
Cŵn ar lwybrau cyhoeddus Dosbarthwyd nodyn atgoffa am y Cod Cefn Gwlad yn niweddariad gwirfoddoli mis Mawrth 2024.	

3. Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Cyflwynodd Michel Regelous (Swyddog y Cynllun Rheoli a Pholisi Morol) drosolwg o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n edrych ar rinweddau arbennig y Parc. Mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i geisio canfod beth sydd ei angen er mwyn cynnal amgylchedd o safon uchel i bawb a chydlynu'r ymdrech sydd ei hangen er mwyn cyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt.

Mae proses ymgynghori yn mynd rhagddi ar hyn o bryd i geisio cael adborth gan groestoriad eang o'r gymdeithas er mwyn datblygu'r cynllun ar gyfer y 4 blynedd nesaf.

Yn ystod y drafodaeth ar ôl y cyflwyniad amlinellwyd pwysigrwydd gwirfoddolwyr fel rhanddeiliaid allweddol, ac anogwyd aelodau'r Fforwm i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy gwblhau'r arolwg ar-lein. Bydd dolen i'r ymgynghoriad yn cael ei chynnwys yn Niweddariad Gwirfoddoli mis Ebrill hefyd a gwahoddir y gweithlu gwirfoddoli llawn i gymryd rhan.

4. Diweddariadau a materion a godwyd gan aelodau'r Fforwm

Mater / diweddariad	Gweithredu
<p>Parcmyn Ifanc Dywedodd Michele Chung, Parcmon Ifanc, fod y parcmyn ifanc yn mwynhau eu hamser yn gweithio ar weithgareddau amrywiol. Ar hyn o bryd maent yn mwynhau cydweithio â thîm ieuencid Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i drafod a rhannu gwell ffyrdd o weithio yn dilyn rhaglen breswyl yn ddiweddar.</p>	<p>Gwahoddodd RE Michele i ddarparu crynodeb ysgrifenedig ar gyfer diweddariad gwirfoddoli yn y dyfodol os byddai'n hoffi sôn mwy am y fenter gyffrous hon.</p>
<p>Diweddariadau Monitro Llwybrau Troed Dywedodd Karin Howells ei bod yn dal i fwynhau ei rôl ym maes Monitro Llwybrau Troed a chyfeiriodd at rai o'r heriau a brofwyd â'r ap sy'n cael ei ddefnyddio gan y tîm (mae'r rhain wedi'u nodi'n barod gan y Parcmon, Chris Taylor).</p> <p>Mae'n teimlo bod bwch cyfathrebu yn gysylltiedig â'r amserlen, rhwng yr adeg y mae problemau â llwybrau troed yn cael eu riportio a'r adeg y maent yn cael eu datrys. Mae hyn yn golygu ei bod yn aml yn ansicr a yw materion penodol yn cael sylw ynteu a ydynt wedi'u hanghofio. Gofynnodd Karin a fyddai'n bosibl gwybod pan fyddai tasgau penodol wedi cael eu cwblhau.</p> <p>Eglurodd Rebecca fod materion sy'n cael eu cyflwyno drwy'r ap yn cael eu codi gan dimau'r wardeniaid ac yn cael eu blaenoriaethu ar sail ffactorau amrywiol, felly ni ddylai fod lle i bryderu os nad yw mater penodol yn cael ei ddatrys ar unwaith. Yn anffodus nid yw'n bosibl cael manylion llawn ynglŷn â statws tasg yn yr ap sydd gennym ni.</p>	<p>Dim camau pellach.</p>
<p>Mynychu sesiynau Dywedodd David Fisher fod rhai gwirfoddolwyr yn dal yn ansicr a fyddant yn mynd i sesiynau gwirfoddoli penodol, a bod llawer yn peidio â dod i'r sesiynau (heb unrhyw</p>	<p>RE/SB i dynnu sylw at hyn mewn diweddariad gwirfoddoli yn y dyfodol.</p>

<p>eglurhad) neu'n canslo ar y munud olaf. Awgrymodd y dylid tynnu sylw'r gwirfoddolwyr at y Siarter Gwirfoddolwyr unwaith eto, a gofyn i bob gwirfoddolwr ymrwymo i roi gwybod i'w reolwr llinell os nad yw'n gallu mynd. Cytunodd pawb.</p>	
<p>Gwisg Swyddogol Dywedodd David Fisher fod y siacedi â chnu y tu mewn iddynt a roddir i rai gwirfoddolwyr yn rhy boeth iddynt weithio ynddynt. Trafodwyd trowsusau gwrth-ddŵr hefyd, a'r consensws oedd y dylai'r rhain gael eu darparu gan y gwirfoddolwr os bydd eu hangen mewn amgylchiadau eithafol.</p>	
<p>Wardeniaid Gwirfoddol y Gogledd-orllewin Dywedodd David fod tîm gwirfoddolwyr y Gogledd-orllewin bellach yn llewyrchus ac yn gweithio'n hapus gyda Meg a Matt ar ôl recriwtio pedwar aelod newydd.</p>	
<p>Sesiynau Llwybrau Rhoddodd Jon King grynodedeb o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y grŵp Llwybrau, gan gynnwys plygu perthi, clirio prysgwydd a gosod ffensys pyst a rheiliau. Roeddent wedi mwynhau eu cyfarfod blynyddol ym mis Ionawr yn Sunnyhill ac roedd nifer o wirfoddolwyr wedi ymuno â'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Bu'n rhaid canslo 6 sesiwn Llwybrau oherwydd tywydd gwael.</p>	
<p>Catalogio Offer Archaeolegol Cyflwynodd Jon King y wybodaeth ddiweddaraf am y system gatalogio a oedd yn cael ei sefydlu ar gyfer yr offer archaeolegol yng Nghastell Henllys. Dywedodd ei fod wedi gwneud rhywfaint o'r gwaith a'i fod yn mwynhau'r her – roedd yn synnu cymaint o waith oedd i'w wneud wrth symud a storio'r bocsys storio amrywiol. Cytunwyd y gallai rolau gwirfoddoli yn y dyfodol gynnwys mwy o fanylion ynglŷn â'r gwaith sydd i'w wneud.</p>	
<p>Wardeniaid Gwirfoddol y Gogledd Cyflwynodd Granville ddiweddariad manwl a oedd yn cynnwys manylion yr holl dasgau a gyflawnwyd gan grŵp y Gogledd. Roeddent yn ymwneud yn bennaf â chreu cynefinoedd, mynediad a phlannu coed, a chynnal a chadw.</p> <p>Newid Gwirfoddolwyr: Mae Richard, Fiona ac Andy wedi gadael y grŵp (mae</p>	

Andy yn helpu yng Nghastellmartin) Mae Mark Rutter a Dr Jon King wedi ymuno â'n criw ni.	
Castell Caeriw Adroddodd Helen Clarke am gynnydd llwyddiannus gwaith amrywiol a wnaethpwyd yng Nghastell Caeriw, gan gynnwys adnewyddu'r fagnel, peintio'r felin, plannu coed a mwy.	
Hyfforddiant Codi â Llaw Roedd aelodau'r Fforwm yn cytuno eu bod yn teimlo bod lefel yr arferion Iechyd a Diogelwch ymhlith gwirfoddolwyr APCAP yn dda iawn at ei gilydd. Awgrymodd Helen y byddai rhai gwirfoddolwyr yn hoffi cyflwyniad i godi â llaw, neu efallai ffordd fwy rhyngweithiol o ddysgu am y pethau sylfaenol hyn.	Helen i holi gwirfoddolwyr Caeriw pa fformat dysgu y byddent yn ei hoffi.
Wardeniaid Gwirfoddol y De Cyfeiriodd Karin at gynnydd â gweithgareddau yn y De, gan gynnwys gwaith plannu yn Dewslake, digwyddiad cymdeithasol adeg y Nadolig, cloddio i wneud pwll dŵr yng Ngerddi Tabernacl a phlannu eirlysiau yn y pencadlys yn Llanion.	
Holodd Ellie hefyd ynglŷn â gweithgaredd pellach yn dilyn blychau barddoniaeth Geiriau Diflanedig a sut roedd hyn yn mynd i gael ei gofnodi/arddangos ar-lein.	RE i gysylltu â'r tîm Cyfathrebu i holi ynglŷn â'r gweithgaredd Geiriau Diflanedig.

5. Diweddariadau gan APCAP

Sgyrsiau Gwirfoddolwyr

Cyfeiriodd Sal a Rebecca at lwyddiant dwy sgwrs gan wirfoddolwyr yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2024. Daeth nifer dda o wirfoddolwyr, staff ac aelodau o Ymddiriedolaeth Arfordir Penfro ynghyd i wrando. Diolchwyd i Vicky Tomlinson am ei thaith rithwir o amgylch Maes Tanio Castellmartin ac i Mike Davies am ei daith rithwir o arfordir yr Ariannin, i Dde Georgia a phenrhyn Antarctica.

Cardiau Parcio

Yn cael eu dosbarthu yn awr i'r gwirfoddolwyr a'r rheolwyr llinell priodol.

Bathodynnau Adnabod

Cyflwynodd Sal y bathodyn, â'i fformat newydd, a chadarnhaodd y byddai'r bathodynnau'n cael eu dosbarthu drwy'r rheolwyr llinell neu'n uniongyrchol yn ystod yr

wythnosau nesaf. Rhoddwyd bathodynnau i aelodau'r Fforwm a oedd yn bresennol ar y diwrnod.

Buddion i Wirfoddolwyr

Cadarnhaodd Rebecca fod manylion y buddion i wirfoddolwyr yn ystod 2024 bron â chael eu cwblhau ac y byddent yn cael eu cadarnhau yn y diweddariad gwirfoddoli nesaf.

Dathlu Gwirfoddolwyr 2024

Mewn trafodaeth agored gwahoddwyd rhagor o syniadau ynglŷn â'r fformat a'r lleoliad a fyddai'n cael ei ffafrio ar gyfer dathliad 2024. Cyfeiriwyd at Gastell Caeriw a'r Neuadd Fach fel syniad ar gyfer tywydd gwlyb. Trafodwyd gwobrau 'doniol' i wirfoddolwyr er mwyn cyflwyno elfen ysgafn a hwyliog i'r diwrnod. Cytunwyd bod angen dod o hyd i amser a fyddai'n addas i bob grŵp, gan gynnwys parcymyn ifanc a chyfranogwyr sydd angen cymorth ychwanegol. Trafodaethau pellach i'w cychwyn gan Rebecca a Sal.

Wythnos Gwirfoddolwyr

Atgoffodd Rebecca yr aelodau am yr Wythnos Gwirfoddolwyr sy'n dechrau ar 3 Mehefin 2024 ac anogodd adborth ynglŷn â gweithgareddau penodol y gellid eu cynnal er mwyn cynrychioli'r Parc. Trafodwyd y prosiect Rhywogaethau Estron Goresgynnol a'r posibilrwydd o dynnu sylw at y prosiect hwn fel maes ar gyfer addysg a chynnwys y gymuned.

Llawlyfr Gwirfoddolwyr

Dywedodd Rebecca fod y llawlyfr presennol yn cael ei ddiweddarau er mwyn creu fersiwn hawdd ei ddeall a'i wneud yn fwy hygyrch i bawb. Cytunodd aelodau'r Fforwm i fod yn 'fwrdd seinio' pan fydd y drafft cyntaf ar gael. Y bwriad yw darparu'r llawlyfr newydd mewn fformat digidol yn ogystal â fersiwn papur i'r rhai sy'n gofyn amdano.

Better Impact – Cofnodi Oriau

Cadarnhaodd Rebecca y byddai'r holl oriau gwirfoddolwyr a fydd yn cael eu cyfrannu o 1 Ebrill 2024 ymlaen yn cael eu cyflwyno drwy'r system Better Impact. Bydd gwirfoddolwyr annibynnol yn cael eu llywio i wneud hyn drwy ddefnyddio cyfarwyddiadau cam wrth gam a bydd rheolwyr llinell gwirfoddolwyr yn cael eu llywio i gofnodi oriau ar gyfer nifer o wirfoddolwyr gan ddefnyddio fformat tebyg.

6. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.